# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## Offerynnau Statudol gydag Adroddiadau Clir
19 Hydref 2015

### CLA586 - Cod Ymarfer Landlordiaid ac Asiantau sydd wedi'u trwyddedu dan Ran 1 Deddf Tai (Cymru) 2014

### Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi fel a ganlyn: Dyma God Ymarfer Landlordiaid ac Asiantau sydd wedi'u trwyddedu dan Ran 1 Deddf Tai (Cymru) 2014. Rhaid i unrhyw un sydd â thrwydded lynu wrth y gofynion statudol fel y'u nodir yn y Cod. Gall methu â gwneud hyn arwain at golli trwydded.

### CLA588 - Rheoliadau Plant (Perfformiadau a Gweithgareddau) (Cymru) 2015

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi'r gofynion mewn perthynas â cheisiadau a wneir i awdurdodau lleol yng Nghymru ar gyfer trwyddedau am berfformiadau a gweithgareddau a roddir o dan adran 37 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1963, a'r amodau sy'n gymwys i'r trwyddedau hynny, yn ogystal â'r gofynion sy'n gymwys i berfformiadau lle nad oes angen trwydded yn rhinwedd adran 37(3) (a) o'r un Ddeddf.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn dirymu Rheoliadau Plant (Perfformiadau) 1968 (OS 1968/1727) a'r Rheoliadau diwygio dilynol:

- Rheoliadau Plant (Perfformiadau) (Diwygiadau Amrywiol) 1998 (OS 1998/1678)
- Rheoliadau Plant (Perfformiadau) (Diwygio) 2007 (OS 2007/736)

## CLA589 - Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Darpariaethau Amrywiol) (Diwygio) (Cymru) 2015

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r cyfraddau datgyfalafu a ragnodwyd gan reoliad 2 o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Darpariaethau Amrywiol) (Rhif 2) 1989 (OS 1989/2303) ar gyfer rhestrau ardrethu annomestig a luniwyd ar 1 Ebrill 2017 neu wedi hynny. Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu cyfraddau datgyfalafu is o 2.1 y cant ar gyfer eiddo addysgol, iechyd, amddiffyn a chyfleustra cyhoeddus a chyfradd safonol o 3.8 y cant ar gyfer pob math arall o eiddo.

## CLA590 - Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) (Diwygio) 2015

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010 (OS 2010/1379 (W.122)). Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi manylion am leoliad safleoedd lle mae'r fuches wedi colli neu adennill ei statws o fod yn rhydd o dwbercwlosis yn unol â Chyfarwyddeb Cyngor 64/432/EEC ar broblemau iechyd anifeiliaid sy'n effeithio ar fasnachu o fewn cymunedau mewn anifeiliaid buchol a moch (OJ No P 121, 29.7.1964, p 1977).